

CYNGOR CYMUNED LLANPUMSAINT COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Mai 2010

Cynhaliwyd y cyfarfod misol yn y Neuadd Goffa ar nos Fawrth 4ydd o Mai 2010 am 8yh yn bresennol **Cynghorwyr** W Thomas D Jones, C Smethurst, M Lloyd, D Davies a A Nicholas.

Cyfeithydd D Charles

Ymddiheurio E Davies, D Thomas a M Howells

Cofnodion

Derbyniwyd y cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir ac feu llofnodwyd gan y cadeirydd.

Ymwelydd

Rob Fellows

Rhodd y gadair croeso cynnes i Rob Fellows i'r cyfarfod . Roedd y newyddion yn ddrwg i'r pentre oherwydd fod y ymddiriedaeth wedi penderfynnu fod ein cymuned ddim yn mynd i elwa or £75,000 blyneddol sydd yn cael ei buddsoddi am y deg blynedd nesa . Penderfynnwyd danfon llythyr i'r ymddiriedolaeth gyda'n sylwadau. Diolchodd y gadair i R Fellows am ddod.

Materion yn codi

Kiosks mae trefn wedi newid a bydd ddim rhaid i'r cyngor wneud dim am diffodd y trydan sydd yn y kiosk.

Cwynion a ddaeth o flaen y cyngor am y carafanau yn Helfa Hall mae'ndebyg fod hawl gyda'r perchennog adael y safle hyn nes diwedd y tair blynedd arall o cynllunio.

Gohebiaeth

Llythyr wrth Pennaeth dros dro Ysgol Gynradd Llanpumsaint yn dweud diolch am y rhodd ariannol hael a dderbyniwyd.

Llythyr wrth ysgrifennyddes y Neuadd gyda'r gwybodaeth bod term swydd ymddireoldwyr yn dod i ben sef M Lloyd, M Howells, E Davies, K Morris a Mary Howell. Roedd y cyngor yn unfrydol i ail ethol pawb am y bedair blwyddyn nesa.

Llythyr wrth Gwili Rheilffordd ar gwybodaeth bod yr rheilffordd yn lawnsio cynllun i rhoi disgownt i drigolion lleol yn gynnwys cerdyn 25% oddi ar bris tocyn. Rhodd y cyngor gwahoddiad i Rob Phillips i ddod i gyfarfod Gorffennaf i rhoi rhagor o wybodaeth am y cynllun hyn.

Diwrnod lluoedd arfog dydd Sadwrn 26 Mehefin 2010. Bydd baneri yn gael ei hedfan gyda'r Cyngor Sir rhynt 21 a 26 Mehefin 2010. Mae croeso i unrhyw un ymuno gyda'r dathliad.

Adolygu trefniadau etholiadol Cyngor Sir Gar cyfarfod nos Fercher 12 fed o Fai 2010 7.30yh yn Siambr y Cyngor Neuadd Sir clerc a Cynghorwr A Nicholas i fynychu.

Gwybodaeth am canllawiau ar feithrin perthynas a siateri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref yn y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Cynllunio

W/22757 datblygiad arfaethedig adolygol Miny Nant newid garej i lle byw.

Roedd Cynghorwr C Smethurst yn poeni bod llawer gormod o cynllunio yn dod i fewn ar ol newid adeiladad sylwadau i'r Cyngor Sir.

W/22863 Datblygiad arfaethedig Ficerdy codi ty cyngor am weld y cynllun i rhoi barn.

Bydd y clerc yn cael y cynllun ar papur a fydd cyfarfod is pwyllgor yw derfnu i drafod y cynllun hyn.

Materion ariannol

Taliadau allan

Tal D Charles am cyfieithu £20 punt.

Taliadau mewn

Presept 2,119.88p

Unrhyw fater arall

Cwynion i'r priffyrdd

Llwyth o tar wedi ei adael ger yr arosfan a hefyd ar y ffordd yn agos i Gaersalem a mannau eraill yn y pentre.

Tyllau eisiau trwsio ar yr heol i Ffynnon draw i Cartref a Gors Goch. Pantour heol yn wael iawn. Heol Skanda Vale ar bryn eisiau trwsio.

Daeth i'r sylw y cyngor ar ol y tywydd garw fod llif o ddwr yn tarddu o Henfryn lawr y ffordd i Bwthyn. Mae hyn wedi digwydd ar ol yr heol gael eu ail wynebu a ddim gadael dwr llifo i fewn i'r gwteri.

Mae mannau aros wrth ochr ffordd ar heol Esgair eisiau ei trwsio.

Sylwadau i'r cyngor sir.

Clwb Cant Mai 2010

£20 E Howells Pandy

£10 D Evans Haulfryn

£5 L Richards Llwyncroes

£5 D Lloyd- George Cwmdwyfran

Cynhelir y cyfarfod misol nesa Cyngor Cymuned yn y Neuadd Goffa nos Fawrth 1af o Mehefin 2010 am 8yh.